dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



# Which level am I?

## A Self Assessment Guide

# Pa lefel dw i?

## Canllaw Hunanasesu

# The 5 Levels

# Y 5 Lefel

Welsh courses are available at different learning levels:

Mae dewis o gyrsiau ar gael ar wahanol lefelau:

- Mynediad (beginners)
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Gloywi (fluent speakers)

On all levels, the emphasis is on **speaking Welsh.**

Ar bob lefel, mae'r pwyslais ar **siarad Cymraeg.**

We offer face-to-face courses and online learning.

Dan ni'n cynnig cyrsau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Read on to find your level of learning.

Darllenwch fwy i ffeindio eich lefel.



# FAQs

**How long does it take to complete a level?**
It depends on the intensity of the course.

It normally takes 2 years to complete a level if attending lessons once a week.

It is possible to complete a level in a year on an intensive course or a **Combined Learning** course where it is expected that you complete a minimum of 2 hours of independent online learning before each lesson.

**Fast Track** courses enable you to complete 2 levels in a year by attending online lessons 2 days a week.

**How long is the course?**
All courses (apart from **Gloywi** level) are 32/33 weeks. There are no lessons during school holidays.

**I can understand a bit of Welsh. Which level am I?**
It depends! This self assessment guide will help you find your level of Welsh.

# Cwestiynau Cyffredin

**Pa mor hir mae'n gymryd i gwblhau lefel?**
Mae'n dibynnu ar ddwyster y cwrs.

Fel arfer mae'n cymryd 2 flynedd i gwblhau lefel os dach chi'n mynd i ddosbarth unwaith yr wythnos.

Mae'n bosib cwblhau lefel mewn blwyddyn ar gwrs dwys neu ar **Gwrs Cyfunol** lle mae disgwyl i chi gwblhau o leiaf 2 awr o ddysgu annibynnol ar-lein cyn pob gwers.

Ar **Gyrsiau Cyflym** mae'n bosib cwblhau 2 lefel mewn blwyddyn trwy fynd i ddosbarth ar-lein 2 ddiwrnod yr wythnos.

**Pa mor hir ydy'r cwrs?**
Mae pob cwrs (ac eithrio lefel **Gloywi**) yn 32/33 wythnos. Does dim gwersi yn ystod gwyliau ysgol.

**Dw i'n gallu deall tipyn o Gymraeg. Pa lefel ydw i?**
Mae'n dibynnu! Mi fydd y canllaw hunanasesu yma yn eich helpu i ddod o hyd i'ch lefel.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



# Mynediad

This level is suitable for **complete beginners.**

After completing this level, you will be able to:

- talk about yourself and others.
- ask and answer questions on topics such as everyday activities, likes and dislikes, and events in the past and future.
- talk about possessions, time and money.
- give basic instructions.

Mae'r lefel yma'n addas ar gyfer **dechreuwyr pur**.

Ar ôl cwblhau'r lefel yma, mi fyddwch chi'n medru:

- siarad amdanoch chi'ch hun ac eraill.
- gofyn ac ateb cwestiynau ar byncia yn cynnwys gweithgareddau bob dydd, hoff a chas bethau, a digwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.
- siarad am eiddo, amser a phres.
- rhoi cyfarwyddiadau sylfaenol.

Listen to a **Mynediad** learner here to see if you can easily undersand the conversation.

If so, read on to find your level of Welsh.

Gwrandewch ar ddysgwr **Mynediad** yma i weld os dach chi'n dallt y sgwrs yn hawdd. Os felly, darllenwch fwy i ffeindio eich lefel o Gymraeg.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



# Sylfaen

This level builds on the Mynediad level by teaching all the basic patterns of the Welsh language.

After completing this level, you will be able to:

- say where you were born and brought up.
- express an opinion about something.
- describe and compare different things.
- express a wish, intention, and an ability to do something.
- discuss past, present and future events.

Mae'r lefel yma'n adeiladu ar lefel Mynediad gan ddysgu holl batrymau sylfaenol y Gymraeg.

Ar ôl cwblhau'r lefel yma, mi fyddwch chi'n medru:

- dweud lle gaethoch eich geni a'ch magu.
- mynegi barn am rywbeth.
- disgrifio a chymharu gwahanol bethau.
- mynegi dymuniad, bwriad, a'r gallu i wneud rhywbeth.
- trafod digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Listen to two **Sylfaen** learners here to see if you can easily undersand the conversation.

If so, read on to find your level of Welsh.

Gwrandewch ar ddau ddysgwr **Sylfaen** yma i weld os dach chi'n dallt y sgwrs yn hawdd. Os felly, darllenwch fwy i ffeindio eich lefel o Gymraeg.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



# Canolradd

This level is suitable for those who are familiar with the key language patterns of Welsh. The focus is on developing speaking skills with a little more writing, reading and listening.

At this level:

- the focus is on conversational work.
- there are dialogues and videos to help you improve your listening skills.
- you will be able to enjoy reading Welsh books.
- there are opportunities to improve your writing skills.

Listen to a **Canolradd** learner here to see if you can easily undersand the conversation.

If so, read on to find your level of Welsh.

Mae'r lefel yma'n addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando.

Ar y lefel yma:

- mae llawer iawn o waith sgwrsio.
- mae deialogau a fideos i'ch helpu i wella eich sgiliau gwrando.
- mi fyddwch yn medru mwynhau darllen llyfrau Cymraeg.
- mae cyfle i wella eich sgiliau ysgrifennu.

Gwrandewch ar ddysgwr **Canolradd** yma i weld os dach chi'n dallt y sgwrs yn hawdd. Os felly, darllenwch fwy i ffeindio eich lefel o Gymraeg.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



# Uwch

Uwch level is in three parts. Uwch i; Uwch ii; and Uwch iii.

At **Uwch i** you will put into practise the language patterns that you have already learned and improve your speaking, reading, writing and listening skills.

At **Uwch ii** you will learn a lot about the history and culture of Wales, and talk about a range of different subjects.

**Uwch iii** includes many exercises to further improve your skills and the course is excellent preparation for sitting the WJEC Uwch exam.

Listen to two **Uwch i** learners having a conversation here.

Read on for **Gloywi** level courses.

Mae tair rhan i lefel Uwch. Uwch i; Uwch ii ac Uwch iii.

Ar lefel **Uwch i** mi fyddwch chi'n defnyddio'r patrymau iaith dach chi wedi'u dysgu'n barod ac yn gwella eich sgiliau siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando.

Ar lefel **Uwch ii** mi fyddwch chi'n dysgu llawer am hanes a diwylliant Cymru, ac yn siarad am lawer o bynciau gwahanol.

**Mae Uwch iii** yn cynnwys llawer o ymarferion i wella eich sgiliau ymhellach ac mae'r cwrs yn eich paratoi'n arbennig ar gyfer sefyll arholiad Uwch CBAC.

Gwrandewch ar ddau ddysgwr **Uwch i** yn cael sgwrs yma.

Ewch i'r dudalen nesa' am fanylion cyrsiau **Gloywi.**

# Gloywi

## Magu Hyder

- Dach chi'n dallt Cymraeg ond ddim yn siarad llawer o'r iaith?
- Wnaethoch chi ddysgu Cymraeg yn yr ysgol ond yn ddihyder i ddefnyddio'r iaith erbyn hyn?
- Ydy defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn codi ofn arnoch chi?
- Ydy newid yr iaith dach chi'n siarad efo ffrindiau a theulu yn teimlo'n amhosib?

Os felly, dyma'r cwrs i chi.

Yn ystod y cwrs byr hwn mi fyddwch yn cael cyfle i roi sglein ar eich Cymraeg ac yn datblygu strategaethau er mwyn magu hyder i siarad yr iaith.  Mae'r pwyslais ar siarad Cymraeg ac i wneud defnydd cynyddol o'r iaith mewn sefyllfaoedd pob dydd.

**Cliciwch yma am fwy o fanylion ac i gofrestru.**

## Gloywi Iaith

Dyma gwrs byr ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr rhugl. Yn ystod y gwersi byddwch yn ymgyfarwyddo â rheolau gramadegol trwy gyfrwng ymarferion defnyddiol - cyfle gwych i roi sglein ar eich Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

**Cliciwch yma am fwy o fanylion ac i gofrestru.**

## Archaeoleg Gogledd Cymru

Dyma gwrs ar gyfer dysgwyr rhugl.

Mi fydd y cwrs yn gyfle i ddysgu am archaeoleg Gogledd Cymru gan ganolbwyntio ar y cyfnod ar ôl y Rhufeiniaid hyd at Oes y Tywysogion. Mi fydd cyfle i ddysgu geirfa newydd yn ogystal â thrafod pethau arwyddocaol sydd wedi codi ym mhob sesiwn.

Mi fydd y cwrs yn cynnwys un ymweliad â safle hanesyddol - i'w drafod unwaith bydd y cwrs wedi dechrau.

**Cliciwch yma am fwy o fanylion ac i gofrestru.**

**dysgucymraeg@bangor.ac.uk**